# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Mark Thomas | Adran Etholiadol: | Penclawdd |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant – hyd at 1 Medi 2015 yn unig |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Yn ystod y flwyddyn ddinesig 2015-2016, cynhaliwyd cymorthfeydd misol ym Mhenclawdd a Llanmorlais.

Parhaodd gwaith gydag CNC i lyfnhau'r materion dros ben wrth gwblhau'r amddiffynfeydd môr ym Mhenclawdd.

Gosodwyd dreif tarmac newydd wrth fynedfa Eglwys St Gwynour.

Arweiniodd perthnasoedd gwaith agos at lwyddo i adnewyddu Tafarn y Railway.

Parhaodd y gweithgaredd poblogaidd iawn, plannu blodau gwyllt, gyda hyd yn oed mwy o ardaloedd wedi'u cynnwys na blynyddoedd blaenorol.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cabinet | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau Corfforaethol | 5 | / | 7 | 71 | % |
| Y Cyngor | 16 | / | 18 | 89 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Datblygu | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol | 2 | / | 5 | 40 | % |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 1 | / | 4 | 25 | % |
| Pwyllgor Cynllunio | 6 | / | 9 | 67 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 0 | / | 2 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **35** | **/** | **51** | 69 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Ar gyfer rhan gyntaf y flwyddyn, roedd fy rôl yn cynnwys Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant. Ers mis Hydref 2015, aeth fy rôl yn ôl i wleidydd 'mainc gefn'. Yn ystod y cyfnod hwn, rwyf wedi parhau i fod yn Llywodraethwr Ysgol Gynradd Penclawdd.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Roedd gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy yn fy rôl fel Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant yn cynnwys pennu cyllidebau, mynd i weithdai'n archwilio gwaith ailstrwythuro gwasanaethau posibl yn unol â'r fenter Abertawe Gynaliadwy - yn Addas ar gyfer y Dyfodol.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

04/05/2016 - Datblygu Economeg a Dichonoldeb Ariannol
19/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
18/04/2016 - Arweiniad ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu ar Newidiadau i'r Gwasanaethau Cymunedol
12/04/2016 - Gloywi Arweiniad Dylunio Preswyl
08/03/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu
25/02/2016 - Pwyllgor Cynllunio - Hawliau Tramwy
25/02/2016 - Diogelu Pobl Ddiamddiffyn
09/12/2015 - Cyfrifoldeb Aelodau i Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr dan y deddfau tai a chydraddoldeb newydd
12/10/2015 - Penderfynu ar Geisiadau am Statws Maes Tref neu Bentref
16/07/2015 - Recriwtio a Dethol

Mae'r rolau yr ymgymerwyd â hwy fel rhan o'm rôl fel cynghorydd bob amser wedi gofyn hyfforddiant, sy'n broses barhaus. Mae fy rôl fel cynghorydd yn gofyn i mi ddatblygu a dysgu fel y gallaf gynrychioli etholwyr yn llwyddiannus yn fy ward ac ardal gyfan Abertawe.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Ar ben yr holl waith statudol yr ymgymerwyd ag ef fel cynghorydd, h.y. cyfarfodydd y cyngor, cyrff y cyngor, cyfrifoldebau llywodraethwr ysgol, ceir ymholiadau'n barhaol gan etholwyr trwy alwadau ffôn, e-byst ac ymweliadau â'm cymorthfeydd misol. Mae'r materion yr ymdrinnir â hwy'n amrywio o atgyweirio tyllau yn y ffordd, torri glaswellt a pherthi, traffig yn gyrru'n rhy gyflym a goleuadau stryd.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch - £32,000 Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Chludiant - hyd at 1 Medi 2015
Cyflog Sylfaenol: £13,300 o 1 Medi 2015

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 10/05/2016 |